



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ DYDDIADAU PWYSIG
- ✓ ARHOLIADAU
- ✓ RHEOLAU
- ✓ TYWYDD POETH
- ... A MWY

GAIR GAN Y PRIFATHRO



Mr Gareth T.M. Jones

PWYSIG

Os bydd gennych unrhyw fater i'w drafod ynglŷn â'r ysgol neu bryderon am yr ysgol cysylltwch â'r swyddfa a gofyn am y Prifathro neu'r Dirprwyon.

Diolch yn fawr.

“MAE POB DISGYBL YN CYFRI. MAE POB DIWRNOD YN CYFRI”

PRESENOLDEB YN YR YSGOL

Ers cychwyn yr ymgyrch hwn y llynedd mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella (95% Haf 2013). **Diolch i chi am eich cefnogaeth.**

Mae'n bwysig fod disgyblion yn yr ysgol **bob dydd.**

Oherwydd natur y gwersi y dyddiau hyn mae'n anodd 'dal i fyny' os collir gwर्स.

Colli diwrnod o ysgol

- = colli 5 awr o wersi a Gwaith Cartref
- = colli ymarferion e.e. Rygbi, Hoci
- = colli arweiniad athrawon
- = colli trafodaethau yn y dosbarthiadau
- = colli cyfleoedd i rannu syniadau
- = colli cael eglurhad ar y nodiadau
- = colli ymarferion darllen, ysgrifennu a llafar
- = colli cyfleoedd i hybu sgiliau hanfodol
- = colli cyfleoedd i hybu Llythrennedd a Rhifedd
- = colli cyfleoedd i wneud cynnydd
- = colli cyfleoedd i gyrraedd llawn botensial

Mae ystadegau diweddar yn dangos fod colli 17 diwrnod o ysgol yn golygu gostwng un radd TGAU. Mae presenoldeb o 90% ar un olwg yn ymddangos yn dderbyniol ond golyga golli diwrnod pob pythefnos. Dros 5 mlynedd mae'n 90 diwrnod = colli 18 wythnos o ysgol neu golli un tymor ysgol!!

Credwn fod presenoldeb uchel yn allweddol i lwyddiant academaidd a chymdeithasol pob disgybl. Gwobrwyir dosbarthiadau ac unigolion am bresenoldeb da.

Y llynedd 'roedd 20 disgybl Blwyddyn 7 – 11 gyda phresenoldeb o 100%.

Cydymdeimlir â disgyblion sydd yn sâl ond mae ambell ddisgybl yn colli ysgol oherwydd anhwylderau bychan iawn neu â mymryn o boen bol neu gur pen.

I fanteisio'n llawn ar yr addysg a gynigir yn yr ysgol rhaid wrth lefel uchel o bresenoldeb.

“Mae pob disgybl yn cyfri—Mae pob diwrnod yn cyfri”

TYMOR YR HAF – TYMOR YR ARHOLIADAU

DYDDIADAU PWYSIG

14 Mai, 2014	Dim Ysgol - Hyfforddiant Athrawon
12 Mai, 2014	Arholiadau TGAU Blwyddyn 11 yn cychwyn (ac yn parhau am fis)
26 - 30 Mai	Gwyliau Hanner Tymor
3 Mehefin	Mabolgampau'r Ysgol
23 - 27 Mehefin	Arholiadau haf Blwyddyn 7, 8, 9, 10
30 Mehefin – 4 Gorffennaf	Profiad Gwaith Blwyddyn 10
18 Gorffennaf	Diwrnod olaf Tymor yr Haf
21 Awst, 2014	Canlyniadau TGAU
2 Medi, 2014	Tymor yr Hydref

ARHOLIADAU BLWYDDYN 11

Mae'n gyfnod arbennig o brysur i bob disgybl ym Mlwyddyn 11. Mae'n bwysig fod y **disgyblion** yn yr ysgol **bob dydd**. Mae angen gorffen y maes llafur ymhob pwnc, cwblhau gwaith cwrs, ymarfer hen gwestiynau ac adolygu yn drwyadl.

Ni fydd cyfnod adolygu gartref ddyddiau cyn cychwyn yr arholiadau eleni yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 11 ddod i'r ysgol bob dydd hyd gychwyn yr arholiadau fore Llun, 12 Mai, **ac i ddod i'r ysgol wedi hynny bob dydd i sefyll arholiadau neu i adolygu yn y gwersi**. Bydd athrawon yn adolygu gyda'r disgyblion. Mae'n bwysig fod disgyblion yn dod â gwaith adolygu gyda hwy i'r ysgol i gael y budd gorau o'r cyfnodau adolygu dwys.

Anfonir llythyr i'r cartref yn nes at yr arholiadau i egluro'r drefn hon yn iawn.

Mae pwysau gwaith ar ein myfyrwyr hŷn ond mae'r staff yn yr ysgol yn barod iawn i'w helpu a'u harwain i gyrraedd eu llawn potensial yn yr arholiadau.

Os yw eich mab / merch yn cael trafferth gyda'u gwaith neu'n bryderus am agwedd o'u gwaith ysgol cysylltwch â'r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda (i sylw y Pennaeth neu'r Dirprwyon, Mr. Geraint Hughes a Mr. Minnice).

Dymuniadau gorau i bob disgybl ym Mlwyddyn 11 ar gychwyn cyfnod allweddol yn eu hanes.

Rhaid paratoi yn drwyadl a gweithio'n gyson galed i lwyddo yn yr Haf. Heb roi amser digonol i baratoi ni ddaw llwyddiant - "Fail to prepare, prepare to fail". Dyna'r gri arferol o Fotwnnog yr adeg hyn o'r flwyddyn - ac mae mor wir.

ARHOLIADAU ALLANOL BLWYDDYN 10

Cynhelir tri arholiad allanol Gwyddoniaeth TGAU yn ystod mis Mehefin. Mae'r drefn yma yn newydd a **dyma'r unig gyfle fydd gan y disgyblion i sefyll yr arholiad.** Byddant yn ennill cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth sengl ar ddiwedd Blwyddyn 10. Mae yna hefyd arholiadau allanol mewn unedau rhai pynciau eraill. Mae'n hanfodol fod y disgyblion yn bresennol ar y dyddiadau canlynol:-

Dydd Llun, 12 Mai, 2014	Ast. Crefyddol
Dydd Gwener, 16 Mai, 2014	Hanes
Dydd Mawrth, 20 Mai, 2014	Saesneg Llên
Dydd Llun, 2 Mehefin, 2014	Astudiaethau Busnes
Dydd Mercher, 4 Mehefin, 2014	Cymraeg Ail Iaith
Dydd Iau, 5 Mehefin, 2014	Electroneg
Dydd Gwener, 6 Mehefin, 2014	Cymraeg Ail Iaith
Dydd Mawrth, 10 Mehefin, 2014	Bywydeg
Dydd Iau, 12 Mehefin, 2014	Cemeg
Dydd Llun, 16 Mehefin, 2014	Ffiseg
Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf, 2014	Gofal Plant

ADRODDIADAU INTERIM – BL. 7 – 10

Yr ydych wedi derbyn copi o Adroddiad Interim eich mab / merch erbyn hyn. Prif nod yr Adroddiad yw monitro ymdrech y disgyblion. Braf sylwi fod mwyafrif llethol y disgyblion yn gweithio'n gyson galed ac yn gydwybodol hyd eithaf eu gallu ymhob pwnc. Mae ambell i ddisgybl mewn ambell i bwnc wedi cael gradd C sef boddhaol neu radd D sef Anfoddhaol am Ymdrech. Bydd staff yn monitro tangyflawni o'r fath. Byddwch chwithau fel rhieni yn awyddus rwy'n siŵr i'n cefnogi i wella ar agwedd ac ymdrech anfoddhaol o hyn hyd yr haf. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech drafod adroddiad eich mab / merch.

RHEOLAU'R YSGOL

- Dim camerâu yn yr ysgol
- Dim ffonau symudol yn yr ysgol
- Dim gwm cnoi.
- Dim smocio.
- Dim cyffuriau, dim alcohol.

Gwisg Ysgol

- Caniateir **un pâr o stÿds bach yn y clustiau.** Ni chaniateir stÿds yn y trwyn na modrwy / gemwaith yn y trwyn neu'r wyneb
- Un fodrwy ar fys
- **Dim mwclis na breichledau**
- Trainers neu esgid **ddu**
- Dim jîns, cords, trowsus combat, cargo du
- **Sgert ysgol blaen ddu rhesymol o hyd gyda theits duon**
- Siwmpwr ddu gwddw crwn gyda bathodyn yr ysgol arni
- Belt du yn unig

Mae'r wisg ysgol ar werth yn yr ysgol.

Caniateir chwaraewr cerddoriaeth / i pod – ar gyfer egwyl a chinio ac nid ar gyfer gwersi nac ar y coridorau. **Os na chedwir at y rheol hon mae posibilrwydd na chaniateir i pods y tymor nesaf.**

TYWYDD POETH – TYMOR YR HAF

Yn y blynyddoedd diwethaf mae achosion o ganr y croen wedi cynyddu. **Dylai disgyblion ofalu eu bod yn rhoi eli haul 15+** pan fo tywydd yn boeth yn enwedig rhwng 11 y bore a 3 y prynhawn, fel nad ydynt yn llosgi.

Mae'n bwysig felly, fod disgyblion yn rhoi eli haul pan fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau awyr agored ar ddiwrnod Mabolgampau ac yn y blaen.



Arholiad Drama Bl 11

Rhys Evans, Ella Devalle a Thomas Allman yn perfformio detholiad o 'My Fair Lady' ar gyfer eu hasesiad terfynol



Tim Rygbi Merched yr Ysgol

Enillwyr y Plât yng Nghystadleuaeth Rygbi Merched i Ysgolion Môn a Gwynedd o dan 14



Walio Cerrig

Disgyblion yr ysgol yn cael hyfforddiant ar sut i godi wal gerrig




Gweithdy Rhaglennu Cyfrifiadurol

Blwyddyn 11 TGCH yn cael blas ar raglennu mewn sesiynau a gynhaliwyd gan TechnoCamps o Brifysgol Bangor



Diwrnod Lansio 'Egin Cegin'

Prosiect cyffrous newydd a lansiwyd gan Ganolfan Fenter Congl Meinciau—am wybodaeth bellach am sut i'w logi cysylltwch â'r Ganolfan Fenter ym Motwnnog



Diogelwch yn yr Ysgol

Er mwyn diogelu disgyblion a staff yr ysgol mae cloeon digidol newydd wedi eu gosod ar y drysau i mewn i bob adeilad yr ysgol. Dylai pob ymwelydd arwyddo i mewn yn y brif swyddfa wrth gyrraedd yr ysgol